Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Canllawiau Amlasiantaethol ar Ymateb i Risg ac Angen ar gyfer Babanod Heb eu Geni, gan gynnwys Beichiogrwydd Cuddiedig



**Cymeradwywyd gan y Bwrdd**
**18.11.20**

**Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau**

**Dyddiad Adolygu**
**Tachwedd 2022**

| **Cynnwys** | **Rhif Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **1.** Cyflwyniad | 4 |
| **2.** Diffiniadau | 4 |
| **3.** Egwyddorion | 5 |
| **4.** Cydnabod Angen a Gwneud Atgyfeiriadau | 5 |
| **5.** Ymateb i Atgyfeiriad at y Gwasanaethau Plant | 6 |
| **6.** Asesiadau Cyn-Geni | 7 |
| **7.** Cynllunio, Ymyrryd ac Adolygu | 9 |
| **8.** Cyfeiriadau, Dolenni Defnyddiol a Ffynonellau Gwybodaeth | 10 |
| **Atodiad 1:** Cynllun Diogelu Cyn-Geni y Gwasanaethau Plant | 11 |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r canllawiau arfer hyn yn berthnasol i holl asiantaethau partner Bwrdd Diogelu Plant Gwent, ac fe'u lluniwyd gan grŵp amlasiantaethol. Eu nod yw sicrhau bod yr holl asiantaethau yn gwybod beth i'w wneud a sut mae arfer cyfrifoldebau mewn perthynas â risg ac anghenion babanod heb eu geni, gan gynnwys beichiogrwydd cuddiedig.

1.2 Dylid darllen y canllawiau arfer hyn ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

1.3 Mae'r canllawiau arfer hyn yn cefnogi polisïau unigol asiantaethau ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

## 2 Diffiniadau

2.1 Yn y canllawiau arfer hyn, mae baban heb ei eni yn golygu: Unrhyw feichiogrwydd rhwng cyfnod cario o 8 wythnos tan y geni, ac fe'i gelwir yn ffetws.

2.2 Mae ‘archeb hwyr’ yn golygu pan fo menyw feichiog yn oedi cyn rhoi gwybod i wasanaethau beichiogrwydd am ei beichiogrwydd. At ddiben y canllawiau arfer hyn, mae archeb hwyr yn golygu cyflwyno i wasanaethau mamolaeth ar ôl 20 wythnos. Mae angen archwilio'r rhesymau dros archebu'n hwyr yn drylwyr.

2.3 Mae gwasanaethau mamolaeth yn cydnabod bod rhai menywod yn cyflwyno'n hwyr yn eu beichiogrwydd neu wrth esgor gan nad ydynt nhw wedi sylweddoli eu bod nhw'n feichiog. Mewn sefyllfa o'r fath, dylid cydweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol Plant i ganfod a oes pryderon.

2.4 Mae **beichiogrwydd cuddiedig** yn golygu pan fo menyw feichiog yn gwybod ei bod yn feichiog, ond nad yw'n cyflwyno ar gyfer gwasanaethau mamolaeth.

Gall achos o guddio beichiogrwydd gael ei ddatgelu'n hwyr yn y beichiogrwydd, wrth esgor, neu ar ôl genedigaeth. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r fam beidio â datgelu ei bod wedi rhoi genedigaeth, a gallai guddio'r baban hyd yn oed ar ôl iddo gael ei eni, neu os yw'r baban wedi marw.

Mae nifer o resymau pam y gallai menyw feichiog benderfynu cuddio beichiogrwydd, gan gynnwys cam-drin domestig, cam-drin rhywiol, stigma crefyddol/diwylliannol, ymyrraeth flaenorol gan y Gwasanaethau Plant ac ati.

Dylid gwneud atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant ar gyfer unrhyw feichiogrwydd cuddiedig a nodir yn unol â'r canllawiau hyn.

## 3 Egwyddorion

3.1 Mae'r canllawiau arfer hyn wedi'u seilio ar yr egwyddorion allweddol canlynol:

- Anghenion y baban heb ei eni yw'r mater pwysicaf
- Mae'n ddymunol cael ymyrraeth gynnar yn ystod y cyfnod cyn geni, er mwyn lleihau'r risg i fabanod agored i niwed.
- Mae ymgysylltiad rhagweithiol gyda mamau a thadau sy'n disgwyl yn cyfrannu at ganlyniad cadarnhaol i'r baban heb ei eni, y rhieni a'r teulu.
- Mae gweithio effeithiol rhwng asiantaethau yn sylfaen ar gyfer nodi angen, asesu risg, a gweithredu ymyriadau a gynllunnir.

## 4 Cydnabod Angen a Gwneud Atgyfeiriadau

***Mae'n bwysig bod unrhyw bryderon yn ystod beichiogrwydd yn cael eu hadrodd cyn gynted ag y maen nhw'n dod at sylw ymarferwyr (Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019).***

4.1 Mae'n gyfrifoldeb ar bob asiantaeth sy'n gweithio gyda menywod beichiog i adnabod angen am ymyrraeth os oes pryderon ynghylch diffyg cefnogaeth neu'r gallu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer y baban.

4.2 Mae bydwragedd, ymwelwyr iechyd, obstetryddion ac ymarferwyr cyffredinol mewn sefyllfa addas i nodi pryderon ac anghenion ychwanegol menywod beichiog. Lle nodir pryderon ac anghenion ychwanegol, bydd angen i weithwyr proffesiynol ystyried lefel a natur y pryder ar gyfer y baban heb ei eni.

4.3 Mae'n bosib y bydd ymarferwyr yn dymuno trafod unrhyw risgiau a nodwyd neu bryderon diogelu mewn perthynas â'r baban heb ei eni gyda'u harweinydd proffesiynol ar gyfer diogelu, a dylid cofnodi canlyniad y trafodaethau hyn yn unol â pholisïau'r asiantaeth benodol.

4.4 Mewn rhai sefyllfaoedd, dylid gwneud atgyfeiriad at y Gwasanaethau Plant mewn perthynas â baban heb ei eni. Mae angen gwneud hyn yn y sefyllfaoedd canlynol: -

1. Pan fo'r fenyw/plentyn beichiog ei hun ar y gofrestr amddiffyn plant.
2. Pan fo'r fenyw/plentyn beichiog yn blentyn 13 oed neu'n iau.
3. Pan fo'r fenyw/plentyn beichiog yn blentyn sy'n derbyn gofal.
4. Pan fo plant eraill yn yr un cartref â'r fenyw/plentyn beichiog sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, neu sydd wedi bod arni yn ystod y chwe mis diwethaf.
5. Pan fo'n hysbys bod plentyn wedi'i dynnu o ofal y rhiant yn y gorffennol.
6. Pan fo camdriniaeth ddomestig yn hysbys.
7. Pan fo cam-drin sylweddau eisoes yn effeithio ar iechyd y plentyn heb ei eni.
8. Pan fo gweithrediad gwybyddol yn effeithio ar eu bywyd bob dydd.
9. Pan fo unigolyn hysbys sy'n peri risg o niwed rhywiol i blant.

4.5 Mae ffactorau risg eraill lle gallai fod angen atgyfeirio at y Gwasanaethau Plant. Gallai'r rhain gynnwys sefyllfaoedd lle mae'r tad/menyw feichiog neu unrhyw aelod arall o'r cartref:- cyfeirier at Gweithdrefnau Diogelu Cymru Adran 2

4.6 Yn achos plentyn/person ifanc beichiog o dan 18 oed, dylid ystyried a oes angen atgyfeirio'r fam fel achos at y Gwasanaethau Plant, yn ddibynnol ar ei hamgylchiadau, a lefel yr angen neu fregusrwydd.

4.7 Os gwneir penderfyniad i atgyfeirio'r baban heb ei eni at y Gwasanaethau Plant, yna dylid dilyn y Gweithdrefnau Diogelu Plant, Adran 2 (2019). Dylid gwneud pob atgyfeiriad heb oedi a chyn gynted ag y mae'n hysbys, a dylai bob amser gynnwys y dyddiad geni tybiedig.

4.8 Os yw ymarferwyr mewn sefyllfaoedd penodol yn penderfynu peidio ag atgyfeirio at y Gwasanaethau Plant, ond yn hytrach at asiantaethau cymorth eraill, bydd hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnod papur beichiogrwydd.

4.9 Dylid monitro ac adolygu cynlluniau cymorth (gan unrhyw wasanaeth sy'n gweithio gyda'r fam feichiog), gan gynnwys adolygiad o'r penderfyniad i beidio ag atgyfeirio at y Gwasanaethau Plant. Os nodir niwed sylweddol neu risg sylweddol o niwed yn ystod y cyfnod o gymorth, dylid gwneud atgyfeiriad arall at y Gwasanaethau Plant.

4.10 Pan wneir atgyfeiriad at y Gwasanaethau Plant o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru, dylid rhoi gwybod i'r fenyw feichiog am y pryderon a'r atgyfeiriad, **oni bai y byddai gwneud hynny yn rhoi'r baban heb ei eni, neu'r fenyw feichiog, mewn risg o niwed sylweddol.** Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol mewn achosion o feichiogrwydd cuddiedig.

## 5 Ymateb i Atgyfeiriad at y Gwasanaethau Plant

5.1 Bydd pob atgyfeiriad at y Gwasanaethau Plant yn cael ei reoli yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Adran 3 (2019).

5.2 Os oes tystiolaeth o bryder ynghylch lles baban heb ei eni, mae'n rhaid cynnal asesiad cymesur. Bydd yr adroddiad cymesur yn ymgorffori safbwyntiau'r holl ymarferwyr perthnasol, gan gynnwys:

- Y fydwraig
- Y Meddyg Teulu
- Yr obstetregydd
- Yr atgyfeiriwr os yw'n briodol
- Yr Ymwelydd Iechyd (os ydynt eisoes yn ymwneud â'r teulu)
- Unrhyw wasanaethau arbenigol perthnasol, (er enghraifft Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion (AMHS), Gwasanaethau Menywod, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, Gwasanaethau Tai).

5.3 Dylid rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r atgyfeiriwr bob tro beth yw penderfyniad yr awdurdod lleol yn dilyn yr asesiad cymesur. Os na chaiff pryderon diogelu eu nodi, dylid rhoi gwybod i'r atgyfeiriwr hefyd os yw'n briodol, gyda'r nod o drefnu cymorth ychwanegol. Gallai hyn gynnwys ymyriad byr o dan Gynllun Gofal a Chymorth

(CASP) neu atgyfeiriad ar gyfer cymorth un asiantaeth yn unol â 4.9 uchod.

5.4 Os yw'r asesiad cymesur yn awgrymu bod y baban heb ei eni mewn perygl o niwed sylweddol, neu y byddai'r baban mewn perygl o niwed sylweddol ar ôl iddo gael ei eni, yna dylid cynnull trafodaeth strategol amlasiantaethol, a dechrau ymchwiliadau Adran 47 gan ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru Adran 3 (2019).

5.5 Ar ôl i ymchwiliadau Adran 47 ddod i ben, bydd Rheolwr Gwasanaethau Plant yn gwneud penderfyniad ynghylch camau i'w cymryd yn y dyfodol, gan ystyried asiantaethau eraill sy'n rhan o'r broses ddiogelu. Gallai hyn gynnwys cyfarfod strategol pellach yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019).

Os oes pryder ynghylch y tebygolrwydd o niwed sylweddol i'r baban heb ei eni, ac y cytunir ar ymchwiliadau adran 47, cynhelir asesiad parhaus.

## 6 Asesiadau Cyn-Geni

6.1 Yn ei hanfod, asesiad o risg i ddiogelwch y baban heb ei eni yn y dyfodol yw asesiad cyn-geni, gyda'r nod o wneud penderfyniadau o ran cynllunio ar gyfer dyfodol y plentyn a'r teulu.

6.2 Dylai pob asesiad cyn-geni, ar unrhyw lefel o ymyrraeth, ystyried:
Cyplau un-rhyw a threfniadau benthyg croth

- Teimladau'r fenyw feichiog a'i phartner (lle bo'n briodol) am y beichiogrwydd
- Hanes y teulu
- Amgylchiadau personol a lefelau cymorth
- Unrhyw risgiau penodol a sut byddai'r rhain yn effeithio ar y baban heb ei eni a'r baban newydd-anedig ar ôl iddo gael ei eni.
- Os yw'r fam feichiog yn gwybod pwy yw'r tad, ac yn rhannu ei wybodaeth, yna dylid gwneud gwiriadau i gefndir y tad er mwyn pennu unrhyw risgiau hysbys i'r fenyw feichiog a'r baban heb ei eni.

6.3 Nod yr asesiad cyn-geni yw ystyried cwestiynau hanfodol:

- A fydd y baban newydd-anedig yn ddiogel dan ofal y rhieni?
- A oes modd rhagweld yn realistig y byddai'r rhieni yn gallu darparu gofal digonol a diogel yn syth a thrwy gydol y plentyndod?

6.4 O ran asesiad cyn-geni, mae amseru yn hanfodol er mwyn i aelodau'r teulu gyfrannu at y broses ac at gynllun amlasiantaethol ac ymyriadau i leihau risg.

6.5 Mae'r asesiad cyn-geni:

- Yn rhoi cyfle i rieni roi tystiolaeth o newid ac i ymgysylltu â gwasanaethau.
- Yn galluogi asiantaethau allweddol i wneud cynlluniau clir a strwythuredig ar gyfer dyfodol y baban.
- Yn galluogi sefydlu gwasanaethau cymorth ar gyfer y rhieni.

6.6 Gall asesiad cynnar helpu i gyflawni'r canlynol:

- Sicrhau bod rhieni sy'n agored i niwed yn cael cynnig cymorth cyn gynted â phosib, yn hytrach na phan fo anawsterau'n codi.
- Sefydlu cydberthynas weithio gyda'r rhieni cyn genedigaeth y baban.
- Cynorthwyo rhieni gydag unrhyw broblemau a allai effeithio ar eu gallu i rianta.

6.7 Dylai asesiad cyn-geni o'r fenyw feichiog a'i phartner ystyried yn benodol:

- Cronoleg o ddigwyddiadau arwyddocaol.
- Eu profiad yn rhianta.
- Eu disgwyliadau a'u paratoadau ar gyfer rhianta.
- Eu rhwydweithiau cymorth – cyn-geni ac ôl-enedigol.
- Gwybodaeth hanesyddol a chyfredol berthnasol gan asiantaethau allweddol sydd â chyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu.
- Eu hamgylchiadau o ran unrhyw blant a anwyd i'r fam feichiog, neu unrhyw bartneriaid, a gymerwyd oddi arnynt.

6.8 Dylai asesiad cyn-geni yn achos plentyn heb ei eni mewn beichiogrwydd wedi'i guddio ystyried yn benodol:

- Archwiliad o'r rhesymau dros guddio'r beichiogrwydd, ac unrhyw risgiau a/neu broblemau penodol y gallai hyn ei olygu ar gyfer y fenyw feichiog a/neu'r plentyn heb ei eni;
- Mynediad y fenyw feichiog at wasanaethau mamolaeth;
- Potensial y fenyw feichiog i beidio â rhybuddio ymarferwyr ei bod yn esgor ac unrhyw anghenion ychwanegol o ran cael mynediad at ofal obstetregol;

6.9 Ystyried unrhyw asesiadau arbenigol pellach o ran y cuddio, gan gynnwys atgyfeiriad posib at wasanaethau iechyd meddwl. Mae materion rheoli risg penodol yn gysylltiedig â menywod beichiog sydd wedi cuddio beichiogrwydd, gan gynnwys:

- Unrhyw risgiau i'r fenyw feichiog os caiff y beichiogrwydd cuddiedig ei ddatgelu, hynny yw os yw wedi'i guddio rhag cyn-gariad.
- Risg bod y fenyw feichiog yn dianc, a ddim yn defnyddio gwasanaethau mamolaeth ar gyfer genedigaeth y baban, a allai arwain at beryglu'r fam a'r baban.
- Os oes risg dianc lleol, mae cyfrifoldeb ar y Gwasanaethau Plant i wneud cais bod y fydwraig ddiogelu yn rhoi gwybod i ysbytai Cymru ac Ambiwlans Cymru, ac os yw'r risg dianc ymhellach, yna dylai'r Gwasanaethau Plant rannu rhybudd cenedlaethol ag awdurdodau lleol.

## 7 Cynllunio, Ymyrryd ac Adolygu

7.1 Wrth gynllunio ar gyfer yr enedigaeth, dylech nodi er bod dyddiad geni tybiedig, ei bod yn bosib rhoi genedigaeth cyn 37 wythnos o gario.

7.2 Os nad yw'r asesiad cyn-geni yn nodi y bydd y baban mewn risg o niwed sylweddol pan fydd yn cael ei eni, ond ei bod yn bosib y bydd anghenion gofal a chymorth, yna gellid parhau â gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau o dan Adran 37 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).

7.3 Os yw'r asesiad cyn-geni yn nodi y bydd y baban mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol ar ôl cael ei eni, mae'n rhaid dilyn y Prosesau Amddiffyn Plant o dan Weithdrefnau Diogelu Plant Adran 3.

7.4 Os cynhelir Cynhadledd Amddiffyn Plant cynenedigol, a chytunir ar gofrestriad ôl-enedigol, dylid cynnwys yr EDD yn y Cynllun Gofal a Chefnogaeth Amddiffyn Plant ar gyfer y babi yn y groth wedi'i gynnwys ar bob cofnod electronig.

Dylid cysylltu cofnod Gwasanaethau Plant y baban heb ei eni gyda chofnod y fam. Pan gaiff y baban ei eni, dylai'r Fydwraig roi gwybod i'r Gweithiwr Cymdeithasol a ddynodwyd iddynt, a'r Tîm Dyletswydd Argyfwng os yw y tu allan i oriau, er mwyn diweddaru cofnodion y Gwasanaethau Plant.

7.5 Bydd y broses Amddiffyn Plant, gan gynnwys cynnull y Grwpiau Craidd, yn parhau yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Adran 3.

Ar ôl eu geni, bydd enw'r baban yn cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Dylid cynnal Grŵp Craidd ymhen 10 diwrnod o eni'r babi, a chynnal Cynhadledd Amddiffyn Plant ar gyfer adolygu dri mis ar ôl y dyddiad geni tybiedig.

7.6 Cynllun Amddiffyn Plant

Bydd cynllun Gofal a Chymorth Amddiffyn Plant amlinellol yn cael ei nodi yn ystod y gynhadledd cyn-geni. Yna, y Grŵp Craidd fydd yn gyfrifol am gwblhau a gweithredu'r cynllun. Bydd y cynllun gofal a chymorth amddiffyn plant yn seiliedig ar yr asesiad cyn-geni, a dylai gynnwys:

- Capasiti rhianta, sgiliau rhianta.
- Unrhyw feysydd o bryder a risg.
- Cymorth er mwyn i'r rhieni ddeall anghenion corfforol ac emosiynol y baban.
- Unrhyw faterion eraill a nodwyd yn yr asesiad.

7.7 Os yw'r plentyn i gael ei gofrestru adeg y geni, mae'n rhaid llunio cynllun diogelu cyn-geni cynhwysfawr hefyd (gweler Atodiad 1).

7.8 Os yw'r Awdurdod Lleol yn bwriadu mynd â'r baban adeg eu geni, yna mae'n rhaid cynnull cyfarfod cynllunio cyfreithiol.

Cydnabyddir y gallai menywod roi genedigaeth ar ôl 37 wythnos o gyfnod cario neu'n gynt os yw'n hysbys eu bod yn camddefnyddio sylweddau.

**7.9 Mae'n rhaid rhannu pob Cynllun Gofal a Chymorth Amddiffyn Plant cyn-geni gyda'r gweithwyr iechyd a Thîm Dyletswydd Argyfwng De Ddwyrain Cymru.**

7.10 Mewn sefyllfaoedd lle mae penderfyniad wedi'i wneud i gofrestru baban adeg y geni, a lle mae mam feichiog yn symud o'r ardal wreiddiol dros dro, bydd yr ardal wreiddiol yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i awdurdod lleol yr ardal dderbyn, gan nodi'r wybodaeth allweddol berthnasol a manylion cyswllt. Os yw'r fam feichiog yn dod i sylw gwasanaethau'r ardal dderbyn, yna mae'n rhaid hysbysu'r ardal wreiddiol.

7.11 Os yw menyw feichiog yn symud i ardal yn barhaol, yna bydd trefniadau trosglwyddo yn cael eu dilyn yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a bydd

cynhadledd drosglwyddo yn cael ei chynnull ymhen 15 diwrnod gwaith.

7.12 Os gwnaed penderfyniad y bydd baban yn cael ei gofrestru adeg ei eni, a bod y fenyw feichiog yn mynd ar goll neu os na ellir dod o hyd iddi drwy'r gwasanaethau, yna bydd trafodaeth strategol yn cael ei chynnal er mwyn:

- Asesu ac egluro unrhyw risg o niwed i'r fenyw feichiog / baban heb ei eni.
- Ystyried cynllun i ddod o hyd i'r fenyw feichiog, gan gynnwys anfon rhybuddion / hysbysiadau i asiantaethau / ardaloedd eraill;
- Cytuno ar gynllun i ymateb i'r fenyw feichiog ar ôl dod o hyd iddi, gan gynnwys trefniadau trosglwyddo posib;
- Ystyried unrhyw gyngor cyfreithiol er mwyn diogelu'r baban heb ei eni

## 8 Cyfeiriadau, Dolenni Defnyddiol a Ffynonellau Gwybodaeth


Hart, Di (2000), “Assessment Prior to Birth” yn Horwath, Jan (Gol) (2000) The Child’s World: assessing children in need - Darllenydd, Yr Adran Iechyd, NSPCC, Prifysgol Sheffield

Corner, Reginald (1997) Pre-Birth Risk Assessment in Child Protection Social Work Monographs, UEA, Norwich

Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
Deddf Plant 1989
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Atodiad 1

# Cynllun Diogelu Cyn-Geni y Gwasanaethau Plant

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cynllun** | |
| **Cyfenw mam y baban heb ei eni** | |
| **Dyddiad geni tybiedig** | |
| **Enw a dyddiad geni y fam** | |
| **Cyfeiriad y fam** | |
| **Enw'r tad/partner a dyddiad geni** | |
| **Cyfeiriad y tad/partner** | |

| |
|---|
| **A yw'r cynllun hwn wedi'i rannu gyda'r rhieni cyn y geni? Do/Naddo** |

**Gwybodaeth Gefndirol:**

| |
|---|
| |

| | Cynllun Gofal Cytunedig |
|---|---|
| **Cynllun Cryno**<br>*I gynnwys:*<br><br>*Cynllun Cryno yn dilyn y geni, Cymryd adeg y geni, Gosod mewn gofal maeth, Cyngor cyfreithiol, EPO, PPP, Rhif log/rhif digwyddiad yr heddlu. Statws cyfreithiol cyfredol os yw'n berthnasol.* | |
| **Cyn-geni**<br>*I gynnwys:*<br><br>Camau i'w cymryd gan weithwyr proffesiynol,<br>*Bydwraig, Gweithiwr Cymdeithasol, Gofalwyr Maeth,*<br>*Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Tîm Dyletswydd Argyfwng De Ddwyrain Cymru*<br><br>*Pwy ddylai gael copi o'r Rhybudd hwn?*<br><br>*Mae angen rhannu'r cynllun hwn gyda'r tîm clinigol bydwreigiaeth perthnasol, a Gwasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.*<br><br>Os oes risg o ddianc<br>*Mae angen rhybuddio Tîm Diogelu Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.*<br>*Bydd angen anfon rhybudd cenedlaethol at y Gwasanaethau Plant.* | |

| | |
|---|---|
| **Esgor**<br>*I gynnwys:*<br><br>*Y man geni, Pwy gaiff/na chaiff fod yn bresennol adeg y geni, Pwy ddylai gael gwybod pan fydd y fenyw feichiog yn mynd i'r ysbyty i esgor*<br>*Pwy ddylai gael gwybod am y geni* | |
| | |
| **Ôl-enedigol yn yr ysbyty**<br>*Nodi a gaiff y fam/tad/partner ofalu am y baban ar y ward?*<br><br>*Oes angen goruchwyliaeth, a chan bwy?*<br><br>*Noder, ni all staff y Gwasanaethau Mamolaeth na'r Tîm Dyletswydd Argyfwng oruchwylio'r cyswllt.* | |
| **Ymweld**<br>*I gynnwys:*<br>*Nodwch pwy gaiff/na chaiff ymweld â'r ward* | |
| **Diogelwch**<br>*I gynnwys:*<br>*Cynlluniau perthnasol ar waith e.e.*<br>*Band adnabod, Goruchwyliaeth, Cynllun wrth gefn os yw unigolyn yn ceisio gadael yr ysbyty gyda'r baban, dylid cysylltu â'r Heddlu* | |

| | |
|---|---|
| **Arsylwi sgiliau rhianta**<br>*I gynnwys: Bydwraig i gefnogi,asesu, a chofnodi unrhyw arsylwadau mewn perthynas â rhyngweithiad a gofal y rhieni am y baban pan fyddan nhw ar y ward.*<br>*Mae angen rhannu unrhyw bryderon gyda'r gwasanaethau cymdeithasol drwy'r gweithiwr cymdeithasol/rheolwr y tîm fel sy'n briodol.* | |

| | |
|---|---|
| | |
| **Rhyddhau**<br>*I ble, ac o dan ofal pwy, y bydd y fam a'r baban yn cael eu rhyddhau?*<br>*Enwau, cyfeiriadau, a rhifau ffôn.*<br>*A oes angen cyfarfod ymlaen llaw i gynllunio eu rhyddhau?*<br>*Oes/Nac Oes Pwy ddylai fod yn bresennol? Y Gwasanaethau Plant i rannu gwahoddiad os oes angen.* | |

**Lluniwyd y cynllun geni gan:**

Llofnod................................................ Dyddiad..................
Gweithiwr Cymdeithasol:

Llofnod................................................ Dyddiad..............
Rheolwr Tîm y Gwasanaethau Plant

Llofnod................................................ Dyddiad..............
Bydwraig Gymunedol

**Cytundeb y rhiant:**

Mam Ydw / Nac ydw

Llofnod................................................ Dyddiad..............

Tad/Partner Ydw / Nac ydw

Llofnod................................................ Dyddiad..............

**Rhifau Ffôn Cyswllt Proffesiynol**

Gweithiwr Cymdeithasol y Gwasanaethau Plant:
/Rheolwr Tîm

Tîm Dyletswydd Argyfwng: 0800 328 4432

Y Fydwraig sy'n Arwain ar Ddiogelu: 07854932695

| | |
|---|---|
| Dylech nodi bod Rheolwr Bydwreigiaeth bob amser ar gael, 24 awr y dydd, drwy switsfwrdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: | 01633234234 |